

RHYBUDD o Benderfyniadau y cyfarfod hybrid y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ac yn Rhithiol Ddydd Mawrth, 28 Mehefin 2022

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm Dydd Gwener, 1 Gorffennaf, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniadau i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm Dydd Gwener, 8 Gorffennaf, 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Ddydd Llun, 11 Gorffennaf, 2022.

Presennol: Y Cyngorwyr Llinos Medi (Cadeirydd) Carwyn Jones, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Douglas Fowle, Glyn Haynes, Trefor LI Hughes MBE, Aled M Jones, John I Jones, Robert LI Jones, Derek Owen, Dafydd Roberts, Liz Wood, Arfon Wyn.

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Nicola Roberts

(10.00 o'r gloch yb – 10.50 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2022

	i Chwefror 2022 fel y'i cyflwynwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I gryfhau'r trefniadau atebolrwydd a blaen gynllunio.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4, 2021/22 (Adroddiad gan y Pennaeth Profesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid)
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad monitro ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch4 2022/23, nodi meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Nodi meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Monitro'r Gyllideb Refeniw Alldro 2021/22 (Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2021/22;

	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 y manylir arnynt yn Atodiad C; • Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH; • Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2021/22 yn Atodiadau D a DD; • Nodi balansau ysgolion yn Atodiad E.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Alldro Cyfalaf 2021/22 (Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Nodi sefyllfa alldro drafft y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 sy'n destun Archwiliad; a • Cymeradwyo dwyn ymlaen £11.242m i 2022/23 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriant. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf 2021/22
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Adroddiad Alldro'r Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 4, 2021/22 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2021/2022.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Costau Byw – Cynllun Dewisol (Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD :- <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo darparu £150 i'r grwpiau a nodir yn adran 2.1.1 yn yr adroddiad, a bod cyllideb gwerth £150,000 yn cael eu gweinyddu gan Adain Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Sir Ynys Môn; • Cymeradwyo cyllid caledi i drigolion sy'n symud o lety brys i lety sefydlog:- <ul style="list-style-type: none"> <i>'Hyd at £300 o gyllid i dalu am gostau bwyd a / neu danwydd wrth symud i lety mwy sefydlog. Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am gostau tanwydd uniongyrchol megis olew. Yn ychwanegol, gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi costau dodrefnu. Bydd y cyllid o £50,000 yn cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Digartrefedd Statudol yn seiliedig ar anghenion asesedig.'</i> • Cymeradwyo £150 ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn Addysg Uwch ac sy'n rhentu neu'n berchen llety ar yr Ynys ac sydd wedi'u heithrio o gam un:- <ul style="list-style-type: none"> <i>£5,000 i'w ddarparu i Grŵp Llandrillo Menai i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod;</i>

	<p><i>£5,000 i'w ddarparu i Brifysgol Bangor i weinyddu ar gyfer y grŵp uchod.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r canlynol ar gyfer ail gam y cynllun costau byw ar gyfer trigolion Ynys Môn sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog / cyn-filwyr ac sydd mewn caledi ariannol. Bydd y taliad o hyd at £300 i bob aelwyd sy'n wynebu caledi yn seiliedig ar anghenion asesedig:- <ul style="list-style-type: none"> <i>'£10,000 i'w ddarparu i Leng Brydeinig Ynys Môn a SAFFA i gefnogi cyn-filwyr sy'n wynebu caledi</i> • Cymeradwyo'r grŵp canlynol ar gyfer trigolion Ynys Môn sydd mewn caledi ariannol ac sydd heb fynediad at gyllid caledi ychwanegol, megis y Gronfa Cymorth Dewisol. Fe all y cyllid gefnogi costau bwyd a thanwydd. <ul style="list-style-type: none"> • <i>Bydd yr agwedd hon yn cefnogi trigolion sydd yn wynebu tlodi er eu bod mewn gwaith. Bydd y taliad hwn o hyd at £300 yn seiliedig ar anghenion asesedig a gellir ei weinyddu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.</i> • <i>Bydd yr agwedd hon yn cynnwys pob math o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a bydd yn canolbwyntio ar dystiolaeth o galedi. 100,000 i'w weinyddu gan ein Huned Hawliau Lles mewnol (O'Toole), ein Tîm Cynhwysiant Ariannol a CAB Ynys Môn.</i> • Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 Cyngor Sir i gynyddu cyllidebau sefydliadau yn seiliedig ar achosion busnes derbyniol, sy'n dangos yr angen a'r galw.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cymeradwyo'r Cynllun Dewisol – Costau Byw
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

